# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 9 Gorffennaf 2015** |
| Amser: | **13.00 – 14.30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2015(10)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Y Fonesig Rosemary Butler AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Rhodri Glyn Thomas AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Nicola Callow, Director of Finance**<br>**Nerys Evans, Pennaeth y Gwasanaeth, Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau, Pennaeth y Gwasanaeth, Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Eric Gregory, Cynghorwr Annibynnol** |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriad gan Angela Burns AC.

1.2 Datganiad o fuddiant

Ni chafwyd datganiad o fuddiant.

1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd bod cofnodion 25 Mehefin yn gofnod cywir.

## 2 Cyllideb Ddrafft 2016-17

Cyflwynodd Nicola Callow ddrafft cyntaf cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2016-17 i'r Comisiynwyr.

Croesawodd y Comisiynwyr y ddogfen, yr oeddent yn teimlo ei bod yn adlewyrchu'n dda strategaeth y gyllideb a gytunwyd ganddynt ym mis Ebrill.

Ffocws dogfen gyllideb 2016-17 yw:

- Cefnogi'r galwadau cynyddol a wynebir gan y Cynulliad, gan gynnwys y rhaglen gynyddol o waith deddfwriaethol;

- Darparu rhaglen newydd ac estynedig o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer yr Aelodau, gan gynnwys Aelodau Cynulliad newydd a'r rhai sy'n dychwelyd, yn seiliedig ar werthusiad o ganlyniadau DPP hyd yma;

- Cefnogi newid cyfansoddiadol, y disgwylir iddo ddigwydd ar raddfa fawr yn sgil cyhoeddiad Deddf Cymru 2014 a chyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi 2015;

- Parhau â gwaith ymgysylltu a hyrwyddo'r Comisiwn, gyda phwyslais ychwanegol i adlewyrchu'r datblygiadau cyfansoddiadol newydd;

- Gwerth am arian - mae gan y Comisiwn record gref o ran cyflawni gwerth am arian law yn llaw â'i nodau a'i flaenoriaethau strategol, a byddwn yn awyddus i adeiladu ar hyn o ddechrau'r Pumed Cynulliad; a

- Datblygu gwasanaeth technolegol - parhau i newid a gwella Gwasanaethau'r Cynulliad a'r ffyrdd rydym yn cefnogi Aelodau'r Cynulliad i gyflawni eu rolau.

Cytunodd y Comisiynwyr, yn ogystal â diweddaru'r drafft i adlewyrchu canlyniad Adolygiad o Wariant y DU a'r Gyllideb, y byddai'n bwysig bod y drafft nesaf yn cynnwys llawer o ddiagramau a darluniau er mwyn sicrhau bod yr un lefel o eglurder a gyflwynwyd yng nghyllideb 2015-16 yn cael ei gyflawni eto eleni.

Cytunodd y Comisiwn i dderbyn dogfen wedi'i diweddaru i'w hystyried ym mis Medi, cyn bod angen i'r gyllideb ddrafft gael ei gosod.

## 3 Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Comisiwn y Cynulliad

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cyflwyno ei adroddiad blynyddol i'r Comisiwn bob blwyddyn. Eric Gregory, sef Cadeirydd y Pwyllgor, a gyflwynodd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014-15 i'r Comisiynwyr a thynnodd sylw at feysydd allweddol y mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn. Rhoddodd hefyd amlinelliad o'r meysydd y mae'r Pwyllgor yn bwriadu canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn i ddod.

Gofynnodd y Comisiynwyr am fater diweddar a godwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â chofnodi gwyliau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad yng nghyfrifon y Comisiwn. Maent yn cefnogi'r safbwynt a fynegwyd gan swyddogion.

Dywedodd y Comisiynwyr pa mor werthfawr yw hi i gael mewnbwn gan gynghorwyr annibynnol y Comisiwn, a'u bod yn teimlo bod y safbwynt allanol yn ddefnyddiol iawn.

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad annibynnol.

## 4 Amnewid teledu cylch cyfyng

Ystyriodd y Comisiynwyr bapur a oedd yn nodi'r gofyniad i amnewid y system teledu cylch cyfyng.

Roedd y Comisiwn yn cefnogi'r angen i wneud y gwaith a chytunwyd y dylid cyflwyno achos busnes manwl iddynt ym mis Medi.

## 5 Penodi Aelodau y Bwrdd Taliadau

Bydd penodiadau aelodau presennol y Bwrdd Taliadau yn dod i ben ar 20 Medi 2015. Cyflwynwyd papur i'r Comisiynwyr yn nodi proses a chanlyniadau'r ymarfer recriwtio a dewis diweddar i ddewis Cadeirydd ac aelodau newydd i'r Bwrdd.

Mae penodiadau i'r Bwrdd Taliadau yn cael eu gwneud gan y Comisiwn yn unol â Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010. Soniodd y Comisiynwyr am amrywiaeth drawiadol o brofiad ac arbenigedd y pum unigolyn a gafodd eu dewis.

Ar ôl bodloni eu hunain na ddylai neb o’r rhai oedd yn cael eu penodi gael eu gwahardd rhag bod yn aelodau’r Bwrdd, penododd y Comisiwn:

- Y Gwir Anrhydeddus Y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd)
- Y Fonesig Jane Roberts
- Trevor Reaney
- Michael Redhouse a
- Roger Williams.

Bydd y penodiadau newydd yn dechrau o 21 Medi 2015.

Cytunodd y Comisiwn i gyhoeddi’r papur a’i anfon at arweinwyr y pleidiau a holl Aelodau’r Cynulliad.

## 6 Unrhyw fater arall

Trafodwyd a chytunwyd y materion canlynol drwy ohebiaeth yn y cyfnod cyn y cyfarfod hwn:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014-15
- Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2014-15
- Adroddiad Blynyddol ar Gydymffurfio â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol 2014-15.

Hwn oedd cyfarfod olaf y Comisiwn cyn toriad yr haf. Bydd y cyfarfod nesaf ar 17 Medi pryd y bydd y Comisiynwyr yn ystyried dogfen gyllideb wedi’i diweddaru.